Iesu yw'r Iôr!

Caneuon Ffydd: Rhif 400

Iesu yw'r Iôr! Y cread sy'n cyhoeddi,
cans drwy ei nerth pob llwyn a pherth a ddaeth i fod;
Iesu yw'r Iôr! Cyfanfyd sy'n mynegi,
haul, lloer a sêr datganant mai Iesu yw'r Iôr.

Iesu yw'r Iôr! Iesu yw'r Iôr!
Canwch yr Halelwia i Iesu, ein Iôr.

Iesu yw'r Iôr! er hyn, o'r nefol wynfyd
daeth nefol Oen i ddioddef poen ar Galfarî;
Iesu yw'r Iôr! Ohono ef daw bywyd,
er hyn fe roes ei fywyd yn Iawn drosom ni.

Iesu yw'r Iôr! Dros bechod bu'n fuddugol,
a daeth yn rhydd y trydydd dydd a choncro'r bedd;
Iesu yw'r Iôr! A sanctaidd Ysbryd nerthol
a enfyn Duw i ddangos mai Iesu yw'r Iôr.

MYFYRDOD

Ni wyddom pryd y dechreuodd yr Eglwys Fore addoli Iesu fel Duw, ond fe addolwyd Iesu o'r amser pan ddaeth i'n byd yn faban bychan ym Methlehem. Y cyfeiriad cyntaf a geir at addoliad yn y Testament Newydd yw'r un lle mae'r tri gŵr doeth yn teithio o'r dwyrain i addoli'r brenin newydd oedd wedi dod i blith yr Iddewon. Efallai eu bod wedi cymryd tipyn go lew o amser i gyrraedd ac mae'n bosibl bod y baban Iesu tua thair oed erbyn iddyn nhw gyrraedd, ond fe ddônt o hyd iddo ar ôl holi yn Jerwsalem: '"Ble mae'r hwn a anwyd i fod yn frenin yr Iddewon? Oherwydd gwelsom ei seren ef ar ei chyfodiad, a daethom i'w addoli"' (Mth. 2:2).

Wrth syllu yn y tywyllwch ar y sêr fe sylweddolasant mai arwydd oedd y seren newydd a welsant fod mab Duw wedi dod i'r byd. Tybed a sylweddolent ar ôl dod o hyd iddo, a chyflwyno eu hanrhegion drudfawr yn offrymau iddo, y byddai'r plentyn hwn yn newid natur addoli am byth?

Y seren ryfedd hon, fel rhan o'r cread, a ddatguddiodd Arglwyddiaeth Crist gyntaf i ddynion. Ymhen blynyddoedd wedyn fe gawn yr apostol Paul yn cyhoeddi am Iesu mai: 'Trwyddo ef ac er ei fwyn ef y mae pob peth wedi ei greu. Y mae ef yn bod cyn pob peth, ac ynddo ef y mae pob peth yn cydsefyll.' (Col. 1:16–17). Hwn yw y 'Gair' neu 'feddwl' Duw yn ôl Ioan, a 'hebddo ef ni ddaeth un dim i fod' (Ioan 1:3).

Mae hi'n anodd i'n meddyliau dynol amgyffred y dirgelwch mawr bod addoli Iesu yn golygu addoli Duw. Ond dyma'r gwirionedd a ddatguddiwyd inni pan ddaeth Iesu i'n byd. Datguddiwyd bryd hynny fod yna ail berson yn yr hyn a alwn erbyn hyn yn Drindod – rhywun sydd yn gyfartal â Duw ac, fel ef, yn dragwyddol ei natur ac a fu gydag ef o'r dechrau. Fe fu amser pan ddaeth Iesu yn ddyn, ond nid pan ddaeth yn Dduw. Yng ngeiriau Credo Nicea, mae hwn yn 'Wir Dduw o Wir Dduw'. Mae'r 'Haleliwia' sef, o'i gyfieithu, 'mawl i enw Duw, Jehofa', i'w ganu i Iesu, am mai ef yw'r datguddiad cyflawnaf i ddynion o Dduw ei hun; 'yn adlewyrchu gogoniant Duw, ac y mae stamp ei sylwedd arno ef' (Heb. 1:3).

Gwelodd y disgyblion, sef y rhai a fu agosaf at Iesu yn ystod ei weinidogaeth yma ar y ddaear, ddigon o brawf o ddwyfoldeb Iesu. Gwelsant ef yn dweud wrth glaf wedi ei barlysu am godi a cherdded gan fod ei bechodau wedi eu maddau, "Pwy ond Duw yn unig a all faddau pechodau?" (Marc 2:7), meddai'r ysgrifenyddion yn gwbl gywir. '"Myfi a'r Tad, un ydym,"' meddai wrth ei ddisgyblion wedyn. Nid tan ar ôl yr Atgyfodiad, pan 'ddaeth yn rhydd y trydydd dydd a choncro'r bedd,' y sylweddolwyd yn llawn nad un meidrol a gafodd ei fabwysiadu i ddwyfoldeb yn unig oedd Iesu. Pan fynegodd Thomas y gwirionedd mawr hwnnw wedi gweld y Crist atgyfodedig: '"Fy Arglwydd a'm Duw!"' (Ioan 20:28), fe welodd fod yna bartneriaeth yn y Duwdod, a'i fod wrth addoli'r Mab yn addoli un a oedd gyfuwch â'r Tad, ac yn uwch ac yn fwy hefyd na grym angau; yn Arglwydd bywyd.

GWEDDI

O Dad, rwy'n diolch iti dy fod wedi mynegi dy hun i ni yn dy Fab Iesu, a bod yr Ysbryd Glân ar waith yn ei ddatguddio i ni yn 'Wir Dduw o Wir Dduw'. Canwn Haleliwia i Iesu, ein Iôr. Amen.